OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1390 (Cy.140)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*18 Mai 2004*
Yn dod i rym	- -	*31 Mai 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**1**) ac adran 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**2**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31 Mai 2004.

Diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000

2.—(1) Diwygir Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliadau 2(1), 3(1)(a), 4(3), 7(2), a 9(2) rhodder "Bwrdd Iechyd Lleol" yn lle "Awdurdod Iechyd"(**4**).

(**1**) 1999 p.8. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31 o'r Ddeddf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd y diwygiad i Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 a wnaed gan adran 66(5)(c) o'r Ddeddf (*gweler* erthygl 2(a) o'r Gorchymyn ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)). *Gweler* adran 62(1) a (4) o'r Ddeddf ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau ac ynghylch cymhwyso adran 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p.49) ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau.

(**2**) 1977 p.49. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 126(4) o'r Ddeddf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys y Ddeddf (gydag eithriadau) yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 (*gweler* erthygl 2(a) o'r Gorchymyn ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)).

(**3**) O.S. 2000/2993 (Cy. 193).

(**4**) Diddymwyd awdurdodau iechyd yng Nghymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 O.S. 2003/813 (Cy.98). Sefydlwyd Byrddau Iechyd Lleol gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) 2003, O.S. 2003/148 (Cy.18).